

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr

## Adroddiad blynyddol 2017–18

## Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Adroddiad blynyddol 2017–18

### Cynulleidfa

Adrannau Llywodraeth Cymru; cyrff cyhoeddus yng Nghymru; cyrff y trydydd sector yng Nghymru; cwmnïau y sector preifat yng Nghymru; sefydliadau addysgol yng Nghymru; sefydliadau sy'n gweithio i hybu'r defnydd o'r Gymraeg; sefydliadau sy'n gweithio gyda theuluoedd, plant a phobl ifanc, a chymunedau; a phartïon eraill â diddordeb.

### Trosolwg

Er mwyn cyflawni gofynion Deddf Llywodraeth Cymru 2006, lansiwyd *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* ym mis Gorffennaf 2017, wedi i'r strategaeth flaenorol dynnu i'w therfyn.

Mae'n ofynnol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i gyhoeddi adroddiad blynyddol i fonitro cynnydd yn erbyn Strategaeth y Gymraeg.

### Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Uned y Gymraeg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: UnedIaithGymraegWelshLanguageUnit@llyw.cymru

@Cymraeg

Facebook/Cymraeg

### Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/ygymraeg

### Dogfennau cysylltiedig

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011; *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* (2017); *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Rhaglen waith 2017–21* (2017); *Adroddiad technegol: Amcanestyniad a thaflwybr nifer y siaradwyr Cymraeg thair oed a throsodd, 2011-2050* (2017); *Y Gymraeg mewn addysg: Cynllun gweithredu 2017-21* (2017)

OGL © Hawlfraint y Goron Mawrth 2019 WG37249 ISBN digidol 978 1 78937 134 5

# Cynnwys


**Rhagair y Gweinidog** **2**

**Cefndir** **4**

**1. Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg** **7**

**2. Cynyddu Defnydd o'r Gymraeg** **22**

**3. Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun** **29**

## Rhagair y Gweinidog

Mae'n bleser gen i gyhoeddi'r adroddiad hwn ar ein gweithredu mewn perthynas â blwyddyn gyntaf strategaeth *Cymraeg 2050 – Miliwn o siaradwyr*.

Mae gan y strategaeth weledigaeth uchelgeisiol, sy'n golygu bod hwn yn amser hynod gyffrous i'r Gymraeg, ac yn ddechrau ar gyfnod prysur iawn wrth inni ddatblygu ac ymestyn ar bolisïau sydd eisoes yn bodoli, a datblygu cynlluniau a gweithdrefnau newydd.

Yn ystod fy nghyfnod fel Gweinidog â chyfrifoldeb dros y Gymraeg, rydw i yn bles gydag ehangder ac amrywiaeth y gwaith sy'n digwydd yn y maes, nid yn unig gan y Llywodraeth ond gan ein partneriaid, a chan unigolion a grwpiau llawr gwlad ar eu liwt eu hunain. Ers lansio *Cymraeg 2050* mae gwaith pwysig ac uchelgeisiol wedi bod yn digwydd er mwyn gosod y sylfaen, ac mae'r strategaeth yn glir bod angen gweithredu mewn nifer o feysydd penodol er mwyn cynyddu nifer y siaradwyr, cynyddu defnydd, a rhoi'r seilwaith yn ei le i hwyluso hynny.

Mae'r her o ran addysg yn amlwg – cynyddu nifer y plant ifanc sy'n dechrau ar eu taith mewn addysg cyfrwng Cymraeg, gwella'r seilwaith drwy gynyddu nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu'r Gymraeg fel pwnc ac addysgu pynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg, a gwella'r ffordd ry'n ni'n dysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Oherwydd pwysigrwydd addysg, felly, blaenoriaeth i'r Llywodraeth ym mlwyddyn gyntaf *Cymraeg 2050* oedd lansio dogfen *Y Gymraeg mewn Addysg: Cynllun Gweithredu 2017-21* ym mis Rhagfyr 2017.

Mae'r Cynllun Gweithredu hwn ar gyfer addysg yn gosod cyfeiriad a chamau gweithredu penodol, gan bwysleisio'r angen i wella'r gefnogaeth i blant a phobl ifanc sy'n dysgu Cymraeg. O baratoi'r cwricwlwm newydd, i ddatblygiad proffesiynol y gweithlu addysg, a diwygio'r modd rydym yn cefnogi ein dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, mae sicrhau bod y Gymraeg wrth wraidd y datblygiadau hyn yn allweddol.

Bydd y datblygiadau hyn ym maes addysg yn fodd o adeiladu ar yr agweddau cadarnhaol sy'n bodoli at y Gymraeg er mwyn cynyddu nifer y bobl sy'n ei siarad ac yn ei defnyddio. Yn hyn o beth, diddorol oedd nodi bod Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017-18 yn dangos bod 86% o bobl yn teimlo bod y Gymraeg yn rhywbeth i ymfalchïo ynddi, a 62% o'r rhai nad oeddent yn gallu siarad Cymraeg yn dymuno gallu ei siarad. Dyma sylfaen gadarn i ni adeiladu arno at y dyfodol.

Yn wahanol i adroddiadau blynyddol blaenorol, lle'r oedd y data'n cael ei gynnwys fel cyfres o dablau mewn atodiad ar ddiwedd y ddogfen, rydym wedi dilyn dull newydd yn y ddogfen hon. Fe welwch felly ein bod wedi cynnwys data a siartiau perthnasol yn y ddogfen ei hun, fel bod modd i ddarllenwyr weld ein cynnydd yn ei gyd-destun, gyda naratif perthnasol i esbonio'r data.

Mae'r data yn dangos yr her mae Llywodraeth Cymru yn ei wynebu mewn ambell faes, er enghraifft o safbwynt cynyddu nifer yr athrawon a sicrhau bod pobl ifanc yn parhau ar eu taith gyda'r Gymraeg ar ôl 16 oed. Rydym yn cydnabod yr heriau hyn

yn yr adroddiad. Mae camau'n cael eu cymryd yn y meysydd hyn, a byddwn yn ehangu ar y rhain yn adroddiad 2018-19.

Yn fwy na dim, mae blynyddoedd cynnar y strategaeth hon yn flynyddoedd o osod y sylfeini. Ein nod yw cymryd camau allweddol nawr a fydd yn caniatáu i ni weld cynnydd yn y tymor hir.

**Eluned Morgan AC**
**Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol**

## Cefndir: Pontio rhwng dwy dwy strategaeth

### Iaith fyw: iaith byw 2012-17 – cau pen y mwdwl

*Iaith fyw: iaith byw* oedd strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru rhwng Ebrill 2012 a diwedd Mawrth 2017. Wrth i swyddogion fireinio a pharatoi'r strategaeth a'i dilynodd, sef *Cymraeg 2050*, cafodd *Iaith fyw: iaith byw* ei hymestyn am 3 mis ychwanegol hyd at Orffennaf 2017. Mae'r cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad hwn felly'n cynnwys 3 mis o weithredu o dan y strategaeth flaenorol honno.

Mae'r gweithgareddau hynny nad oedd eisoes wedi dod i ben o dan *Iaith fyw* wedi parhau o dan faner *Cymraeg 2050*, ac adroddir ar y gweithgareddau hynny o dan y 3 thema fel y'u hamlinellir yn y strategaeth newydd.

Mae'r gweithgareddau hyn yn gosod sylfaen gadarn ac, ar y cyd â'r camau newydd uchelgeisiol rydym yn eu cymryd mewn amrywiaeth o feysydd polisi, yn helpu i osod y trywydd at filiwn o siaradwyr.

### Cymraeg 2050

Lansiwyd strategaeth *Cymraeg 2050* ym mis Gorffennaf 2017. Mae'n amlinellu dull hirdymor Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Nodwyd yr ymrwymiad hwn hefyd yn Symud Cymru Ymlaen 2016–2021, y Rhaglen Lywodraethu.


Er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon, mae gennym dair thema strategol:

- Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr
- Thema 2: Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg
- Thema 3: Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

Mae'r adroddiad hwn yn dilyn trefn y themâu hyn.

Rydym wedi nodi y bydd y blynyddoedd cychwynnol yn canolbwyntio ar osod seiliau cadarn mewn nifer o feysydd, er mwyn rhoi'r elfennau yn eu lle i ganiatáu cynnydd yn nifer y siaradwyr a defnydd dros amser. Mae'r siart isod yn dangos amcanestyniad a thaflwybr ar gyfer nifer y siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd rhwng 2011 a 2050.

**Siart 1: Amcanestyniad a thaflwybr nifer y siaradwyr Cymraeg**




Mae'r llinell isaf yn cynnig amcanestyniad o nifer y siaradwyr Cymraeg, yn seiliedig ar amcanestyniadau o'r boblogaeth a data Cyfrifiad 2011. Mae'r amcanestyniad wedi'i seilio ar senario lle byddai'r cyd-destun polisi ar gyfer y Gymraeg a'r Gymraeg mewn addysg wedi aros yn gyson â'r sefyllfa flaenorol, cyn lansio *Cymraeg 2050*.

Mae llinell uchaf y graff yn dangos un taflwybr posibl ar gyfer y cynnydd at filiwn, yn seiliedig ar amcanion polisi *Cymraeg 2050*. Fel y gwelir yn y graff, cynnydd bach a ragwelir yn ystod blynyddoedd cyntaf y strategaeth, gyda chynnydd mwy yn dechrau dod i'r amlwg tuag at ddiwedd y degawd cyntaf ar ôl lansio'r strategaeth.

Gan ddefnyddio'r taflwybr hwn a'r rhagdybiaethau sy'n sail iddo, gosodwyd cerrig milltir ar gyfer y daith at y miliwn o siaradwyr. O ran y cam cyntaf, y cerrig milltir i nodi ein bod ar y llwybr iawn fydd:

- cynnydd bychan yn y teuluoedd sy'n trosglwyddo'r Gymraeg erbyn Cyfrifiad 2021, gan barhau â'r patrwm a welwyd rhwng 2001 a 2011
- cynnydd yng nghanran y dysgwyr a fydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg, o 22 y cant (sy'n seiliedig ar 7,700 o ddysgwyr saith oed yn 2015/16) i 24 y cant (tua 8,400) erbyn 2021, er mwyn bod ar y trywydd iawn i gyrraedd 30 y cant (tua 10,500 ym mhob grŵp oedran) erbyn 2031 ac yna 40 y cant (tua 14,000 ym mhob grŵp oedran) erbyn 2050.

Yn ystod blynyddoedd cyntaf gweithredu'r strategaeth mae llawer o'n pwyslais, felly, ar hyrwyddo'r ddau faes gwaith hwn rhwng nawr a 2021 er mwyn cryfhau'r seiliau ar gyfer y dyfodol.

Er mwyn hwyluso cynnydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg, rydym wedi gosod y nod o:

- ceisio cefnogi'r gwaith o ehangu sector Cymraeg y blynyddoedd cynnar drwy greu 40 grŵp meithrin newydd erbyn 2021
- cefnogi cynnydd yn nifer yr athrawon yng Nghymru sy'n gallu addysgu Cymraeg neu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2021 fel a ganlyn:
    - 3,100 o athrawon cynradd sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (o linell sylfaen o 2,900 yn 2015/16)
    - 600 o athrawon uwchradd sy'n gallu addysgu Cymraeg (o linell sylfaen o 500 yn 2015/16)
    - 2,200 o athrawon uwchradd sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (o linell sylfaen o 1,800 yn 2015/16).

Byddwn hefyd yn cadw llygad agos ar y dangosyddion defnydd iaith sy'n gysylltiedig â'r targed o gynyddu cyfraddau'r bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg bob dydd o 10 y cant o'r boblogaeth i 20 y cant yn 2050. Cynyddu'r targed o 10 y cant i 11 y cant erbyn 2021 fydd ein carreg filltir gyntaf.

Mae'r adroddiad isod yn amlinellu ein gweithgareddau yn ystod blwyddyn ariannol 2017-18 i roi'r strategaeth ar waith, ac yn nodi ein cynnydd lle bo ffigurau priodol yn bodoli[1].

[1] Yn yr adroddiad hwn, fe sylwch fod ambell beth wedi newid ers adroddiadau blaenorol *Iaith fyw: iaith byw*. Er enghraifft mae ambell set ddata bellach wedi'i hepgor er mwyn canolbwyntio ar amcanion lefel uchel y strategaeth newydd. Mae'r wybodaeth honno (e.e. ynghylch gweithgareddau'r Mentrau Iaith, yr Urdd, Eisteddfod Genedlaethol Cymru, S4C, DVLA, Cyngor Llyfrau ac ati) ar gael o hyd o'r gwefannau perthnasol.

# THEMA 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg

Yn amlwg, cam mwyaf arwyddocaol y cyfnod adrodd oedd y gwaith o ddatblygu strategaeth newydd *Cymraeg 2050* ei hun, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2017. Dyma ddogfen a fydd yn gosod y trywydd ar gyfer y maes am flynyddoedd i ddod. Nawr mae angen ei weithredu, gan osod y sylfaen ar gyfer cynnydd dros amser. Prosiect hirdymor yw hwn, ond aethpwyd ati ar unwaith i weithredu yn unol â'r strategaeth a'r Rhaglen Waith.

Yn unol â'r strategaeth, mae'r nod o sicrhau miliwn o siaradwyr yn golygu datblygu ymhellach y dulliau sydd yn fwyaf tebygol o arwain at y cynnydd angenrheidiol. Mae yna ddau brif ddull o greu siaradwyr: trosglwyddo'r Gymraeg o un genhedlaeth i'r llall, a datblygu a chynnal sgiliau Cymraeg drwy addysg a hyfforddiant.


Mae'r strategaeth yn cydnabod cyfraniad allweddol trosglwyddo iaith yn y cartref i ddyfodol y Gymraeg. Mae hefyd yn cydnabod bod cyfraniad siaradwyr sy'n dysgu Cymraeg y tu allan i'r cartref yn gwbl allweddol i lwyddiant y strategaeth. Gan hynny, mae creu'r amodau cywir i ddysgwyr newydd o bob oedran i fedru datblygu a defnyddio eu sgiliau yn hollbwysig – o'r blynyddoedd cynnar, drwy bob cam o addysg orfodol ac ôl-16, hyd at gyfleoedd i oedolion ddysgu'r Gymraeg.

Yn y strategaeth, rydym yn crybwyll sut mae'r cysyniad o *mudes*, neu 'addasiadau mewn ymddygiad ieithyddol' ar gyfnodau allweddol, yn sail ddefnyddiol ar gyfer deall sut mae pobl yn datblygu eu sgiliau a'u harferion ieithyddol dros eu bywydau. Mae'r strategaeth felly'n rhoi pwyslais ar y dull cwrs bywyd, ac ar gymryd camau penodol ar gyfnodau tyngedfennol yn nhaith unigolion gyda'r iaith.

**Y sefyllfa gyfredol – faint o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg?**

Y Cyfrifiad yw'r ffynhonnell a ddefnyddir i fonitro'r cynnydd tuag at ein targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg. Ond gan mai dim ond bob 10 mlynedd y cynhelir y Cyfrifiad, defnyddir canlyniadau Arolwg Blynyddol y Boblogaeth er mwyn cael canlyniadau mwy rheolaidd ar gyfer nifer y siaradwyr Cymraeg. Yn draddodiadol, fodd bynnag, mae amcangyfrifon o'r arolwg hwn wedi bod yn llawer uwch na rhai'r Cyfrifiad – gweler y siart isod:

**Siart 2: Nifer y bobl 3 oed a throsodd sy'n gallu siarad Cymraeg yn ôl yr Arolwg Blynyddol a Chyfrifiad y Boblogaeth**



Er bod ffigurau'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn dueddol o fod yn uwch o lawer na ffigurau'r Cyfrifiad, maent yn ddefnyddiol er mwyn gweld patrymau neu dueddiadau yn nifer y siaradwyr.

Yn ôl Arolwg Blynyddol y Boblogaeth, felly, roedd 868,900 o bobl oed 3 a throsodd yn gallu siarad Cymraeg yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018. Er bod ffigurau'r Arolwg Blynyddol yn amrywio ychydig o flwyddyn i flwyddyn, y tueddiad sy'n dod i'r amlwg yw bod y niferoedd i'w gweld yn cynyddu yn raddol ers 2008.

**Trosglwyddo'r iaith o fewn y teulu**

Yn sgil cyhoeddi astudiaeth ymchwil *Trosglwyddo'r Gymraeg a'i Defnydd mewn Teuluoedd* ym mis Mehefin 2017, cynhaliwyd cyfres o weithdai gyda rhanddeiliaid perthnasol yn ystod y flwyddyn dan sylw. Mae casgliadau'r gweithdai a'r ymchwil yn llywio'r gwaith o lunio polisi trosglwyddo iaith, i'w gyhoeddi yn ystod 2019-20.

Er mwyn gwella'r ddarpariaeth yn y maes hwn, dyfarnwyd contract i gynnal gwerthusiad annibynnol o raglen Cymraeg i Blant ym mis Mawrth 2018 er mwyn adolygu a mireinio'r rhaglen honno, a sicrhau bod cefnogaeth a gwybodaeth ddigonol ar gael i rieni a gofalwyr wrth gyflwyno'r Gymraeg yn y cartref. Bydd y gwerthusiad hwn yn cael ei gwblhau yn ystod blwyddyn ariannol 2019-20, a bydd y canfyddiadau a'r argymhellion yn cael eu bwydo i gynllunio dyfodol Cymraeg i Blant o fis Ebrill 2019.

Am fod dechrau ar drosglwyddo'r iaith mor gynnar â phosibl yn fanteisiol, mae rhaglen Cymraeg i Blant hefyd yn parhau i gydweithio â'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yn genedlaethol ac yn lleol er mwyn rhannu negeseuon allweddol gyda rhieni a darpar rieni. Yn ystod 2017-18 parhawyd i blethu negeseuon Cymraeg i Blant i gardiau sgan, ffolderi mamolaeth a Chofnod Personol y Plentyn (y 'Llyfr Coch') sy'n cael eu darparu i bob teulu yng Nghymru drwy'r GIG.

Er mwyn cyrraedd miliwn o siaradwyr, erbyn 2021 mae *Cymraeg 2050* yn nodi bod angen parhau â'r duedd o gynnydd bach a welwyd mewn cyfraddau trosglwyddo rhwng Cyfrifiadau 2001 a 2011. Y Cyfrifiad yw'r prif ffynhonnell gwybodaeth ar gyfer trosglwyddo yn y cartref.

**Y blynyddoedd cynnar**

Am fod pen draw i nifer ychwanegol y siaradwyr Cymraeg y gellir eu creu o drosglwyddo'r iaith o un genhedlaeth i'r nesaf, mae sicrhau bod addysg cyfrwng Cymraeg ar gael o'r blynyddoedd cynnar ymlaen yn hanfodol er mwyn cyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg.

Y nod yn y maes hwn yw ehangu darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar fel pwynt mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn cynnwys cefnogi'r gwaith i ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg y blynyddoedd cynnar trwy greu 40 grŵp meithrin newydd erbyn 2021, a hynny er mwyn cyrraedd 150 yn fwy o grwpiau meithrin erbyn 2026-27.

Gwnaed gwaith paratoadol gan Mudiad Meithrin yn ystod 2017-18 er mwyn adnabod ardaloedd i'w blaenoriaethu ar gyfer sefydlu Cylchoedd Meithrin newydd o Ebrill 2018. Bydd gwybodaeth am ein cynnydd yn erbyn y targed hwn yn cael ei darparu yn adroddiad blynyddol nesaf.

Cafodd y Cynnig Gofal Plant ei brofi mewn rhannau o saith awdurdod lleol o fis Medi 2017. Cafodd dewisiadau rhieni o ran cyfrwng iaith gofal plant o fewn y Cynnig Gofal Plant eu monitro er mwyn deall mwy am y galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a sut mae teuluoedd am wneud defnydd o'r gwasanaethau hyn. Cafodd yr wybodaeth hon ei bwydo i ddatblygiad y Cynnig wrth iddo ehangu i ardaloedd newydd.

Darparodd Mudiad Meithrin ystod eang o gefnogaeth i'w aelodau a chynnal rhaglen hyfforddi 'Academi' ar gyfer staff a gwirfoddolwyr mewn lleoliadau ar draws Cymru. Casglodd Mudiad Meithrin ddata ychwanegol gan ei aelodau er mwyn gwella ein dealltwriaeth o'r cysylltiad rhwng darpariaeth gofal plant ac addysg. Cafodd yr wybodaeth ychwanegol hon ei rhannu ag awdurdodau lleol er mwyn cyfoethogi'r sail data ar gyfer datblygu Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA).

Fel rhan o raglen waith Cwlwm, sef consortiwm o bum sefydliad gofal plant blaenllaw yng Nghymru, darparwyd cefnogaeth i leoliadau ar draws y sector gofal plant er mwyn iddynt allu bod yn rhan o'r Cynnig Gofal Plant yn ystod 2017-18. Bu aelodau Cwlwm hefyd yn ystyried dulliau o gydweithio er mwyn cryfhau'r ddarpariaeth gofal plant, gan gynnwys darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar draws Cymru.

Bu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol hefyd yn gweithio'n agos gydag aelodau Cwlwm yn ystod y flwyddyn er mwyn cael gwell dealltwriaeth o sgiliau Cymraeg y gweithlu cyfredol. Aseswyd sgiliau Cymraeg 600 o ymarferwyr gofal plant ar draws y sector yn ystod 2017-18, a defnyddiwyd canlyniadau'r asesiadau hyn i gynllunio arlwy'r Ganolfan ar gyfer y sector gofal plant i'r dyfodol.

**Addysg statudol**


Yn seiliedig ar waith ymchwil a thystiolaeth, ac yn dilyn cyfnod o drafod a datblygu mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol, ym mis Rhagfyr 2017 cyhoeddwyd *Y Gymraeg mewn Addysg: Cynllun gweithredu 2017-21*, sef polisi cenedlaethol ar gyfer addysgu a dysgu Cymraeg yn ein system addysg statudol. Mae'r cynllun yn nodi sut bydd y system addysg yn cyfrannu at ein nod o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg hyderus.

Mae Strategaeth Cymraeg 2050 yn gosod targedau ar gyfer y maes addysg, ac mae *Y Gymraeg Mewn Addysg: Cynllun Gweithredu 2017 i 2021* yn defnyddio dangosyddion i fonitro ein cynnydd yn erbyn y targedau hynny. Adroddir ar ein cynnydd yn erbyn y targedau a'r dangosyddion ill dau yn yr adran hon.

Un o brif dargedau *Cymraeg 2050* oedd gweld cynnydd yng nghanran y dysgwyr sy'n gadael ysgol yn gallu siarad Cymraeg, gyda tharged o 70% o blant yn gadael ysgol yn gallu siarad Cymraeg erbyn 2050. Yn ôl Cyfrifiad 2011, roedd 33% o blant 16-17 oed yn gallu siarad Cymraeg – dyma'n gwaelodlin felly.

Er mwyn monitro'r ganran sy'n gallu siarad Cymraeg yn fwy cyson, rydym yn defnyddio canran y dysgwyr Blwyddyn 11 sy'n cael eu hasesu yn Gymraeg (iaith gyntaf ac ail iaith).

**Siart 3: Canran dysgwyr Blwyddyn 11 sy'n cael eu hasesu yn Gymraeg (iaith gyntaf ac ail iaith)**




Mae'r siart yn dangos bod cynnydd yng nghanran y plant sy'n sefyll TGAU Cymraeg iaith cyntaf ac ail iaith (cwrs llawn) ers 2008/09. Mae gostyngiad wedi bod yn y ganran sy'n sefyll y cwrs byr ail iaith dros y pum mlynedd diwethaf (diddymwyd y cwrs byr ym mis Medi 2017), ond ar y cyfan mae'r canrannau sydd yn sefyll TGAU yn y Gymraeg wedi cynyddu ychydig ers 2008/09.

## Y Gymraeg yn y cwricwlwm newydd

Mae datblygu cwricwlwm Cymraeg newydd a fydd yn ysbrydoli dysgwyr y dyfodol i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn hollbwysig wrth wireddu ein gweledigaeth ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae'r Gymraeg wedi'i chynnwys ym Maes Dysgu a Phrofiad ar gyfer Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn y cwricwlwm newydd, a fydd yn cael ei gyflwyno o 2022 ymlaen. Fel gyda phob rhan o'r cwricwlwm newydd, mae'r Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn cael ei ddatblygu gan athrawon ac arbenigwyr drwy rwydwaith o Ysgolion Arloesol. Yn ystod 2017-18, roedd yr ysgolion arloesi oedd ynghlwm wrth ddatblygu'r Maes Dysgu a Phrofiad hwn wedi bod yn canolbwyntio ar gynllunio fframwaith strategol.

## Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg

Er mwyn datblygu ymhellach gynllunio strategol yn y maes, penodwyd Aled Roberts ym mis Chwefror 2018 i sefydlu a chadeirio Bwrdd Cynghori annibynnol i edrych ar brosesau cynllunio addysg Gymraeg. Roedd Aled Roberts eisoes wedi cynnal Adolygiad Brys o'r Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) yn 2017, ac mae'r Bwrdd yn defnyddio argymhellion yr Adolygiad hwnnw fel sail i'r trafodaethau. Penodwyd aelodau'r Bwrdd a chynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 17 Mai 2018, gyda'r bwriad o gynnal cyfarfod bob 4-6 wythnos hyd at fis Mawrth 2019.

Un o flaenoriaethau'r Bwrdd Cynghori yw adolygu'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n cefnogi cynllunio addysg Gymraeg. Mewn cydweithrediad â changen deddfwriaeth Llywodraeth Cymru, cytunwyd ar amserlen i ddiwygio *Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013.*


**Cyllid cyfalaf**

Er mwyn helpu i greu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg, ym mis Ionawr 2018 cyhoeddwyd £30 miliwn ar gyfer prosiectau cyfalaf i gefnogi a chynyddu lleoedd i blant a phobl ifanc mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn ychwanegol i'r dyraniad a gyhoeddwyd ar gyfer Band B o'r Rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer y 21ain Ganrif. Dyrannwyd y cyllid ar gyfradd o 100%, gyda'r nod o roi hwb i ddatblygiadau na fyddent wedi bod yn bosibl fel arall, gan ein bod yn awyddus i sicrhau twf cyflym ac ystyrlon yn y sector cyfrwng Cymraeg.

**Cyfran y dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg**

Un o dargedau Cymraeg 2050 oedd cynyddu cyfran y dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg o 22% o ddysgwyr saith oed yn 2015/16 i 24% erbyn 2021, er mwyn bod ar y trywydd iawn i gyrraedd 40% erbyn 2050. Mae siart 4 yn dangos ein cynnydd yn erbyn y targed hwn.

**Siart 4: Canran y dysgwyr Blwyddyn 2 (7 oed) sydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn ôl blwyddyn academaidd**





Mae'r siart yn dangos bod 22.2% o ddysgwyr saith oed mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn y flwyddyn academaidd 2017/18. Mae'r canran yma wedi aros yn eithaf cyson o amgylch y canran '22%' ers 2011/12.

Fel y nodir uchod, y targed yw cynyddu canran y plant saith oed mewn addysg cyfrwng Cymraeg o 22% i 24% erbyn 2021. Y cohort dosbarth derbyn presennol (ym mlwyddyn academaidd 2018/19) fydd y disgyblion saith mlwydd oed yn 2021. Nid oes gennym ddata ar nifer y dysgwyr yn y cohort dosbarth derbyn presennol sy'n astudio Cymraeg fel iaith gyntaf, ond mae'r data ar gyfer dosbarthiadau blwyddyn 1 a 2 ar hyn o bryd yn awgrymu y bydd y ganran o gwmpas 23% erbyn 2020. Erbyn haf 2019 byddwn mewn gwell sefyllfa i adrodd ar p'un a fyddwn ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed o 24% erbyn 2021.

Nodwyd hefyd yng nghynllun gweithredu Y Gymraeg mewn Addysg ein bod yn dymuno gweld dysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Mae siart 5 yn dangos canran y dysgwyr ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 (h.y. blwyddyn 6, sef blwyddyn olaf ysgol gynradd, 11 oed) a chanran y dysgwyr ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 (h.y. blwyddyn 9 ysgol uwchradd, 14 oed) sydd cael eu hasesu yn y Gymraeg (iaith gyntaf).

**Siart 5: Canran y dysgwyr ar ddiwedd cyfnodau allweddol 2 a 3 sydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn ôl blwyddyn academaidd**




Un o dargedau  cynllun gweithredu *Y Gymraeg mewn Addysg* oedd cynyddu cyfran y dysgwyr Blwyddyn 9 sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg (iaith gyntaf) o 17.9% yn 2016/17 i 21% erbyn 2021. Mae Siart 5 yn dangos bod canran y dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg wedi cynyddu ychydig ers 2013 ar gyfer y rhai sydd ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 a 3.

Mae siart 5 hefyd yn dangos y tueddiad i ganran y dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 fod tua 2 pwynt canran yn uwch nac ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 dair mlynedd yn ddiweddarach.

Rydym yn parhau i gydweithio a chryfhau'r cysylltiadau gyda phob un o'n partneriaid, megis awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol, ysgolion, darparwyr y blynyddoedd cynnar a'r sector ôl-16 er mwyn gwella'r cyfraddau dilyniant rhwng pob cyfnod addysg. Nodwyd bod argymhellion 1 a 3 o Adolygiad Brys CSGA Aled Roberts yn berthnasol ar gyfer cytuno'r deilliannau mwyaf pwrpasol a phriodol ar gyfer y cylch nesaf o'r CSGAau.

Mewn ymateb i argymhellion Aled Roberts, bydd y broses o ddiffinio ysgolion yn ôl categorïau ieithyddol yn cael ei thrafod a'i hystyried gan y Bwrdd Cynghori CSGA.

Er mwyn cynyddu'r galw am addysg cyfrwng-Cymraeg, datblygwyd ymgyrch farchnata genedlaethol drwy brosiect Cymraeg i Blant. Nod yr ymgyrch oedd rhannu cymorth a gwybodaeth â rhieni am eu dewisiadau a manteision y Gymraeg ym myd addysg, a chrëwyd cynnwys digidol o amrywiaeth o deuluoedd a oedd wedi bod drwy'r broses.

O safbwynt rhoi mwy o gyfleoedd i ddysgwyr gael addysg Gymraeg drwy ddarpariaeth i hwyrddyfodiaid, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol nodi yn eu CSGA sut byddant yn cynyddu cyfleoedd trochi hwyr ar gyfer dysgwyr sy'n dymuno cael

addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd y Llywodraeth ac awdurdodau lleol yn parhau i weithio mewn partneriaeth i wella'r cyfleoedd sydd ar gael i hwyrddyfodiaid.


Nodwyd yn *Y Gymraeg mewn Addysg: cynllun gweithredu 2017 i 2021* ein bod hefyd yn dymuno gweld mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg. Gosodwyd dau darged i fonitro'r cynnydd yn y maes hwn:

- Cynyddu canran y dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf a gofrestrwyd ar gyfer o leiaf dau gymhwyster Lefel 1/2 arall drwy gyfrwng y Gymraeg o 82.8% yn 2015/16 i 86.0% erbyn 2021.

- Cynyddu canran y dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf a gofrestrwyd ar gyfer o leiaf pum cymhwyster Lefel 1/2 arall drwy gyfrwng y Gymraeg o 57.6% yn 2015/16 i 65.0% erbyn 2021.

Mae siart 6 yn dangos ein cynnydd mewn perthynas â'r ddau darged uchod.

**Siart 6: Canran y dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf a gofrestrwyd ar gyfer o leiaf dau neu pump cymhwyster Lefel 1/2 arall drwy gyfrwng y Gymraeg**




Mae siart 6 yn dangos bod 83.8% o ddysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf hefyd wedi'u cofrestru ar gyfer o leiaf dau gymhwyster arall drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn wedi cynyddu ychydig ers 2014 ac yn ymddangos i fod ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed o 86.0% erbyn 2021.

Roedd 71.5% o'r dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf hefyd wedi'u cofrestru ar gyfer o leiaf pum cymhwyster arall drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd hyn wedi cynyddu cryn dipyn yn y flwyddyn ers 2016, ac yn ymddangos i fod wedi cyrraedd y targed o 65% erbyn 2021.

**Addysg ôl-orfodol**

Yn ôl canlyniadau'r Cyfrifiad, mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn cwympo'n sylweddol ar ôl 16 oed. Mae ystod o ffactorau cymdeithasol cymhleth yn dylanwadu ar bobl ifanc, gan gynnwys cyfleoedd hyfforddiant ac astudio ôl-16, gweithgareddau cymdeithasol (gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol), iaith y cartref a chyfleoedd am gyflogaeth.

O gofio'r cynnydd yn nifer y bobl sy'n dweud eu bod yn dysgu Cymraeg yn yr ysgol, a rôl y system addysg yn y gwaith o gyrraedd miliwn o siaradwyr, rhaid inni sicrhau bod yr unigolion hyn yn parhau i gael cyfleoedd i siarad Cymraeg er mwyn parhau i ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg. Byddai lleihau'r gwymp ôl-16 hon fymryn yn ein helpu i gyrraedd miliwn o siaradwyr yn gynt.

Bellach ehangwyd cyfrifoldebau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gynnwys y sector ôl-16, mewn ymateb i argymhellion y grŵp gorchwyl a gorffen a adolygodd weithgareddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn ystod 2017. Cyhoeddwyd adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen ym mis Rhagfyr 2017 ac aeth y Coleg ati'n syth i weithredu'r argymhellion ar gyfer y sector ôl-16. Ffurfiwyd Grŵp Cynghori gyda chynrychiolaeth o'r sector addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith, i gynghori'r Coleg ar lunio cynllun gweithredu uchelgeisiol. Y bwriad yw datblygu'r sector ôl-16 er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth gan greu dilyniant ieithyddol fel y gall dysgwyr barhau â'u haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog. Yn ogystal â'r ddarpariaeth, mae parhau i gynnal a datblygu sgiliau cymdeithasol dysgwyr yn y Gymraeg yn bwysig iawn. Cyhoeddir y Cynllun Gweithredu cyn ddiwedd 2018.

Rydym yn dymuno gweld rhagor o fyfyrwyr mewn addysg ôl-16 yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, a hynny mewn ysgolion, sefydliadau addysg bellach, dysgu yn y gymuned a thrwy ddysgu sy'n seiliedig ar waith.


Mae cynllun gweithredu Y Gymraeg mewn Addysg yn dibynnu ar gyflenwad digonol o raddedigion prifysgol yn y Gymraeg, o gronfa o ddysgwyr sydd wedi astudio Cymraeg Safon Uwch. Er mwyn cynyddu nifer y myfyrwyr sydd â sgiliau iaith uwch yn y Gymraeg, gosodwyd y targedau canlynol:

- Cynyddu cyfanswm y cofrestriadau Cymraeg Iaith Gyntaf Safon Uwch fel canran o gofrestriadau Cymraeg Iaith Gyntaf TGAU ddwy flynedd yn gynharach o 4.9% yn 2015/16 i 6.0% erbyn 2021

- Cynyddu cyfanswm cofrestriadau Cymraeg Ail Iaith Safon Uwch fel canran o gofrestriadau Cymraeg Ail Iaith TGAU ddwy flynedd yn gynharach o 1.3% yn 2015/16 i 3% erbyn 2021.

Mae siart 7 yn dangos bod canrannau'r dysgwyr sy'n cofrestru ar gyfer Safon Uwch Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith wedi bod yn disgyn yn gyson ers 2009.

**Siart 7: Cofrestriadau Cymraeg Safon Uwch fel canran o gofrestriadau Cymraeg TGAU ddwy flynedd yn gynharach - iaith cyntaf ac ail iaith**




Erbyn y flwyddyn academaidd 2017/18 roedd 4.2% o ddysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg iaith cyntaf, wedi cofrestru ar gyfer Safon Uwch iaith gyntaf. Ac roedd 1.3% o ddysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg ail iaith wedi cofrestru ar gyfer Safon Uwch ail iaith.

Yn gyffredinol, ymddengys nad yw'r cynnydd yn y nifer sy'n sefyll TGAU Cymraeg (gw. Siart 6) yn trosglwyddo i'r nifer sy'n dilyn Safon Uwch Cymraeg.


Mae amcan penodol yng nghynllun gweithredu'r Gymraeg mewn addysg i fynd i'r afael â'r her o gynyddu'r niferoedd sy'n sefyll Cymraeg fel Safon Uwch. Mae grŵp o randdeiliaid sy'n cynnwys y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Cymwysterau Cymru, CBAC, adrannau Cymraeg y prifysgolion, yr Urdd, y consortia addysg rhanbarthol ac athrawon wedi'i sefydlu i symud y gwaith yn ei flaen.

Nid yw'r Gymraeg mewn sefyllfa unigryw yn hyn o beth, gyda nifer o bynciau Safon Uwch yn gweld gostyngiad yn ystod y blynyddoedd diweddar oherwydd y dewis cynyddol o ran y pynciau y gall myfyrwyr ysgol eu dilyn. Er enghraifft, mae hyn wedi effeithio ar y nifer sy'n dilyn Safon Uwch Saesneg yn ogystal â'r Gymraeg.

Er mwyn datblygu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ym maes addysg bellach, rydym wedi parhau i gydweithio gyda'n partneriaid i annog cynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n manteisio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, gan fonitro twf y ddarpariaeth honno gyda'r Gangen Cynllunio a Chyllido Addysg ôl-16 yn Llywodraeth Cymru. Bydd cynllun gweithredu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn gosod cyfeiriad a chefnogaeth pellach i gynyddu'r ddarpariaeth at y dyfodol.

Mae Siart 8 yn dangos canran y gweithgareddau addysg sy'n cael eu cynnal yn Gymraeg neu'n ddwyieithog yn ôl y math o ddarparwr.

**Siart 8: Canran y gweithgareddau addysg sy’n cael eu cynnal yn Gymraeg neu’n ddwyieithog yn ôl y math o ddarparwr**




* Gwnaed gwaith dadansoddi pellach i ddeall y rheswm dros y gostyngiad o 7.0% (2015/16) i 5.2%. Roedd y dadansoddi hwn yn dangos bod dau Sefydliad Addysg Uwch wedi gweld gostyngiad mawr yn eu data o ran gweithgarwch dysgu, sef Grŵp Llandrillo Menai a Choleg Cambria. Edrychodd y ddau sefydliad ar eu data eto a gweld nad oedd y data wedi’i fewnbynnu’n gywir ym maes LA26 (y maes yng Nghofnod Dysgu Gydol Oes Cymru sy’n cofnodi iaith y ddarpariaeth) yn ystod y flwyddyn, ac nad oedd craffu priodol wedi bod cyn cadarnhau’r data erbyn y dyddiad cau. Awgrymodd Grŵp Llandrillo Menai hefyd, am fod mwy o ddysgwyr yn ail-sefyll eu arholiadau TGAU Saesneg, fod hyn wedi effeithio rhywfaint ar ganran y gweithgareddau cyfrwng-Cymraeg a dwyieithog.
Mae dadansoddi pellach wedi dangos petai’r ddau sefydliad wedi cofnodi eu data’n gywir, a phetai wedi bod yn debyg i ddata 2015/16, y byddai’r gweithgareddau dysgu addysg uwch ar gyfer 2016/17 wedi bod yn 7.6%, sef cynnydd o 0.6 y cant o’i gymharu â’r flwyddyn flaenorol.

Mae canran y gweithgareddau addysg sy’n cael eu cynnal yn Gymraeg neu’n ddwyieithog yn yr ysgolion ac mewn sefydliadau addysg bellach wedi aros yn weddol gyson dros y blynyddoedd diwethaf. Gwelir cynnydd o 4.6 pwynt canran yn y gweithgareddau Cymraeg a dwyieithog sy’n cael eu cynnal ar ffurf dysgu yn seiliedig ar waith.

Er mwyn sicrhau bod mwy o’r dysgwyr sy’n dilyn rhaglenni dysgu seiliedig ar waith, prentisiaethau ac addysg bellach yn cael eu hasesu trwy gyfrwng y Gymraeg, rydym wedi parhau i gydweithio â’n partneriaid i hybu hyfforddiant ac addysg alwedigaethol cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Fel rhan o waith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a’r cyfeiriad fydd yn cael ei osod gan y Grŵp Cynllunio ôl-16, bydd y sector prentisiaethau yn rhan annatod o’r cynllun gweithredu gyda’r sector addysg bellach.

## Addysg Uwch


Cefnogir y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i ddatblygu’r sector addysg uwch cyfrwng Cymraeg mewn partneriaeth â’r sefydliadau. Rhennir y gwaith i dri chategori, sef:

- cynyddu darpariaeth addysg uwch cyfrwng Cymraeg y prifysgolion, gan greu dilyniant ieithyddol
- cefnogi gweithgareddau craidd sy’n cynnwys cynllunio academaidd, hyrwyddo addysg uwch cyfrwng Cymraeg, a chefnogi ymchwil, ynghyd â datblygu’r dystysgrif Sgiliau Iaith Gymraeg

- a'r cynllun ysgoloriaethau sy'n cynnig cefnogaeth ariannol i fyfyrwyr sy'n cwblhau rhywfaint neu'r cwbl o'u hastudiaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ers sefydlu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn 2011, gwelwyd bod y cofrestriadau gan fyfyrwyr mewn prifysgolion yng Nghymru sy'n defnyddio o leiaf rhywfaint o Gymraeg yn eu haddysg wedi cynyddu'n raddol dros y blynyddoedd. Mae'r ganran sy'n gwneud o leiaf 40 credyd yn Gymraeg wedi aros yn eithaf sefydlog. Gweler siart 9.

**Siart 9: Canran y cofrestriadau gan fyfyrwyr mewn prifysgolion yng Nghymru sy'n defnyddio'r Gymraeg yn eu haddysg[2]**




## Cymraeg i Oedolion

Crëwyd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i roi arweiniad strategol i'r maes dysgu Cymraeg i Oedolion, a blwyddyn academaidd 2016-17 oedd ei blwyddyn weithredol gyntaf. Un o dasgau cyntaf y Ganolfan oedd rhesymoli'r ddarpariaeth, a sefydlwyd cyfundrefn newydd o 11 o ddarparwyr Dysgu Cymraeg. Datblygwyd *Gyda'n Gilydd*, cynllun strategol sydd wedi torri tir newydd ac sydd wedi arwain at newidiadau arwyddocaol.

Yn ystod 2017-18, aed ati i lunio cwricwlwm cenedlaethol am y tro cyntaf, sy'n sail i gynllun dysgu ac addysgu cenedlaethol newydd. Datblygwyd platfform digidol arloesol – dysgucymraeg.cymru – sy'n galluogi dysgwyr i chwilio am gyrsiau a chofrestru arnynt, defnyddio adnoddau digidol i gefnogi'r dysgu, dysgu ar-lein a derbyn gwybodaeth am gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Datblygwyd cynlluniau newydd, gan gynnwys gŵyl genedlaethol i ddysgwyr, 'Ar Lafar', a chyflwynwyd fframwaith ansawdd i annog rhagoriaeth yn y sector.

Ym mis Ebrill 2017 sefydlwyd rhaglen newydd o'r enw 'Cymraeg Gwaith', i ategu'r gwaith o ddysgu Cymraeg yn y gymuned. Nod y rhaglen yw darparu hyfforddiant a

[2] Gwelwyd gostyngiad yn nifer y myfyrwyr oedd yn astudio rhywfaint neu o leiaf 5 credyd yn y Gymraeg yn 2016/17 o ganlyniad i un sefydliad yn cofnodi cynnydd sylweddol yn y cyrsiau bach byr yn 2015/16 na barhaodd wedi hynny.

chefnogaeth i gyflogwyr er mwyn eu galluogi i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Gwnaeth dros 3,000 o gyflogeion o ystod o gyflogwyr yn y sector cyhoeddus a phreifat elwa ar y rhaglen yn ystod 2017-18.

Ceir manylion pellach am waith y Ganolfan, gan gynnwys 'Cymraeg Gwaith', yn ei hadroddiad blynyddol diweddaraf - https://dysgucymraeg.cymru/media/3468/ffeinal-nclw-annual-report-2017-18_web.pdf.

**Y gweithlu addysg, adnoddau a chymwysterau**

**Gweithlu'r blynyddoedd cynnar**

Er mwyn ehangu cynllun hyfforddiant cenedlaethol y Mudiad Meithrin i sicrhau bod mwy o unigolion yn cymhwyso i weithio drwy'r Gymraeg yn y sector gofal plant, mae Mudiad Meithrin wedi parhau i gynnig cyfleoedd i staff a gwirfoddolwyr i ddatblygu sgiliau mewn amrywiaeth o feysydd drwy raglen 'Academi'. Mae'r Mudiad hefyd wedi rhoi'r cyfle i weithwyr y blynyddoedd cynnar ennill Diploma Lefel 3 Gofal Plant drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Athrawon**


Er mwyn hwyluso'r cynnydd mewn addysg Gymraeg, mae *Cymraeg 2050* yn nodi y byddwn yn cefnogi twf yn nifer yr athrawon yng Nghymru sy'n gallu addysgu'r Gymraeg neu drwy gyfrwng y Gymraeg.

I'r perwyl hwnnw, gwnaeth Aled Roberts argymhelliad yn ei Adolygiad Brys o Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) i edrych ar hyfforddiant a recriwtio (*Argymhelliad 13 - Cynllunio a gweithredu brys er mwyn cynyddu'r nifer o athrawon sydd yn cael eu hyfforddi i addysgu yn y Gymraeg*). Mae cynllun gweithredu'r Gymraeg mewn addysg yn nodi nifer o gamau penodol i'w cymryd er mwyn mynd i'r afael â'r her o gynyddu nifer yr athrawon cyfrwng Cymraeg. Yn ogystal, mae nifer o ddiwygiadau yn digwydd ym maes hyfforddiant cychwynnol athrawon ac mae gwaith ar y gweill gyda swyddogion o'r meysydd polisi priodol ym maes Addysg (e.e. o ran datblygiadau gyda'r Consortia, a phrosesau hyfforddi a recriwtio athrawon) i sicrhau'r cynnydd sydd ei angen erbyn 2021.

Mae Cymraeg 2050 yn nodi y byddwn yn cynyddu nifer yr athrawon yng Nghymru sy'n gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg i 3,100 o athrawon cynradd a 2,800 o athrawon uwchradd erbyn 2021.

Mae siart 10 yn dangos ein cynnydd tuag at y targedau hyn erbyn y flwyddyn academaidd 2017/18.

**Siart 10: Nifer yr athrawon sy’n gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg**




Mae siart 10 yn dangos bod nifer yr athrawon sy’n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg wedi aros yn gymharol gyson ers 2015/16.

Er mwyn datblygu dealltwriaeth glir o sgiliau Cymraeg y gweithlu addysg, yn ystod 2017-18 cynhaliodd y consortia rhanbarthol archwiliad o sgiliau iaith Gymraeg ymarferwyr a’u gallu i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae sicrhau digon o athrawon i yrru'r cynnydd mewn addysg Gymraeg ac addysg ddwyieithog yn parhau i fod yn her. Ceir awgrymiadau cynnar bod angen ffocws penodol ar gynyddu nifer yr athrawon ysgol uwchradd sy'n gallu addysgu Cymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gennym dair blynedd academaidd ar ôl i sicrhau ein bod yn cyrraedd targedau 2021.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno, neu wrthi’n cyflwyno, nifer o ymyriadau i fynd i’r afael â’r her hon, er enghraifft:

- Lansiwyd ymgyrch farchnata ddigidol ar gyfer ein Cymhellion Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) ym mis Ionawr 2018. Cafodd canlyniadau'r gwaith marchnata hwn, a oedd wedi'i dargedu'n fanwl iawn, eu defnyddio i ddatblygu ymgyrch greadigol newydd ar y cyfryngau, i’w lansio yn hydref 2018, i hyrwyddo'r proffesiwn a recriwtio'r unigolion gorau a mwyaf disglair i faes addysgu.

- Yn 2017/18, roedd ugain o leoliadau i athrawon graddedig mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Byddwn yn parhau i gydweithio â phartneriaid i sicrhau bod y llwybr hwn yn parhau i gynhyrchu athrawon ar gyfer y sector cyfrwng Cymraeg.

Byddwn yn amlinellu rhagor o ymyriadau yn hyn o beth yn adroddiad blynyddol 2018-19, a gyhoeddir maes o law.

Nod arall pwysig yw meithrin gwerthfawrogiad athrawon dan hyfforddiant o’r Gymraeg a rhoi cyfleoedd iddynt ddatblygu eu hyfedredd yn y Gymraeg a’u

harbenigedd i addysgu drwy’r Gymraeg. I’r perwyl hwnnw, mae'r Meini Prawf Achredu ar gyfer Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA), a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2017, wedi'u hailgysyniadoli. Maent bellach yn ei gwneud yn ofynnol i Bartneriaethau AGA fod yn glir ynghylch y gweithgarwch sydd wedi'i gynnwys yn eu rhaglenni ar gyfer datblygu'r Gymraeg i'r rheini sy'n dymuno dilyn gyrfa mewn ysgol Gymraeg neu ddwyieithog, a'r ddarpariaeth i wella sgiliau Cymraeg pob myfyriwr AGA.

Mae gwaith ar ddatblygu rhaglen ddysgu broffesiynol yn allweddol wrth sicrhau bod pob ymarferydd yn gallu datblygu ei sgiliau Cymraeg yn barhaus. Ers Ebrill 2017, mae’r consortia rhanbarthol wedi derbyn cyllid ychwanegol i weithredu amrywiol raglenni datblygiad proffesiynol. Bydd y gwaith hwn yn parhau i ddatblygu ac esblygu yn 2018-19.

Ym mis Medi 2017, sefydlwyd cwrs sabothol blwyddyn o hyd i dargedu athrawon mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg. Roedd 36 o athrawon ar y cwrs a ddaeth i ben ym mis Gorffennaf 2018. Yn ogystal â’r cwrs blwyddyn, mae cyrsiau sabothol ar fodelau eraill wedi eu cynnal yn ôl yr arfer. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gomisiynu gwerthusiad pellach o’r cynllun sabothol.

**Y Gweithlu ôl-16**

Er mwyn cefnogi gweithlu’r sector addysg ôl-16 i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg, rhoddwyd cefnogaeth wedi ei theilwra i anghenion ymarferwyr addysg bellach fel rhan o raglen Cymraeg Gwaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Drwy’r rhaglen hon cynigwyd hyfforddiant dwys o 100 awr neu fwy i ymarferwyr mewn 11 sefydliad addysg bellach ar draws Cymru yn ystod 2017-18.

**Adnoddau addysg**

Agwedd arall hollbwysig ar seilwaith addysg Gymraeg yw sicrhau bod adnoddau perthnasol yn cael eu cynhyrchu ar gyfer y cwricwlwm a chymwysterau. Yn dilyn yr uwchgynhadledd ar adnoddau a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2017, sefydlwyd Grŵp Rhanddeiliaid Adnoddau Addysgol Dwyieithog i drafod yr opsiynau ar gyfer creu seilwaith cenedlaethol, er mwyn datblygu a darparu adnoddau perthnasol ac amserol i gefnogi’r cwricwlwm a chymwysterau yn y dyfodol. Bydd y Grŵp yn darparu cynllun i’w ystyried erbyn Ebrill 2019.

Mae Cangen Adnoddau’r Gymraeg mewn Addysg yn parhau i adnabod yr angen am adnoddau perthnasol ar gyfer 3-19 oed, ac aethpwyd ati i drefnu paneli adnabod anghenion gydag athrawon i’w cynnal yn ystod Haf 2017. At hynny, dyfarnwyd cytundeb grant i Gyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC) ddarparu fersiynau Cymraeg o werslyfrau i gefnogi’r cymwysterau newydd. Mae gwaith hefyd ar y gweill gyda’r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i goladu gwybodaeth am y ddarpariaeth gyfredol o adnoddau yn y sector ôl-16 ac adnabod y bylchau yn y ddarpariaeth.

Cynigiwyd syniadau hefyd gan ymarferwyr am adnoddau i gefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, a bydd Llywodraeth Cymru yn comisiynu’r adnoddau hyn drwy dendr maes o law.

Rydym yn cydweithio gyda Cymwysterau Cymru i sicrhau bod cyswllt adeiladol yn parhau ar gyfer diwallu anghenion y sector cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.  Fel rhan o gynllun gweithredu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ddiwedd 2018, bydd cymwysterau ac asesiadau cyfrwng Cymraeg yn rhan annatod o'r gwaith i'r dyfodol.

# THEMA 2: Cynyddu defnydd o’r Gymraeg

Un agwedd ar ein gweledigaeth yw symud i sefyllfa lle mae miliwn o siaradwyr. Ond mae iaith sy’n ffynnu yn iaith sy’n cael ei defnyddio. Rydym am i’r defnydd o’r Gymraeg felly fod yn rhan arferol o fywyd bob dydd, fel bod siaradwyr ar bob lefel yn teimlo’n hyderus i’w defnyddio mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol, a bod pobl yn cymryd camau rhagweithiol i gynnig cynnyrch a gwasanaethau yn Gymraeg.

Mae angen cyfleoedd ar bobl i ddefnyddio’r Gymraeg mewn sefyllfaoedd amrywiol sy’n adlewyrchu eu ffordd o fyw. Mae’r rhain yn cynnwys cyfleoedd gyda’r teulu, yn y gweithle, mewn gweithgareddau lleol, neu mewn rhwydweithiau a chymunedau diddordeb ehangach a all fod ar wasgar ym mhedwar ban byd.


**Y sefyllfa gyfredol - faint sy’n defnyddio’r Gymraeg?**

Anodd iawn yw mesur defnydd iaith. Un ffordd o geisio gwneud hynny yw drwy gynnal arolygon defnydd iaith. Cynhaliwyd yr Arolwg Defnydd Iaith diweddaraf o safbwynt y Gymraeg yn 2013-15.

Un o brif dargedau *Cymraeg 2050* yw cynyddu canran y bobl 3 oed a throsodd sy’n siarad Cymraeg bob dydd ac sy’n gallu siarad mwy nag ychydig o eiriau o Gymraeg[3] o’r 10% yn Arolwg Defnydd Iaith 2013-15 i 11% erbyn 2021 (ac 20% erbyn 2050).

Arolygon Defnydd Iaith fydd yn cael eu defnyddio, felly, i fonitro cynnydd tuag at y targed hwn. Ond er mwyn cael canlyniadau mwy rheolaidd, byddwn hefyd yn defnyddio canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gyfer oedolion 16 oed a throsodd.

**Siart 11: Canran y bobl 16 oed a throsodd sy’n siarad Cymraeg bob dydd ac yn gallu siarad mwy nag ychydig o eiriau o Gymraeg yn ôl yr Arolwg Cenedlaethol**




Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru, felly, roedd 12% o oedolion 16 oed a throsodd yn siarad Cymraeg bob dydd ac yn gallu siarad mwy nag ychydig o eiriau o Gymraeg yn 2017-18.

Er bod ffigurau’r Arolwg Cenedlaethol yn gallu amrywio ychydig o flwyddyn i flwyddyn, mae’r ganran i'w gweld wedi cynyddu rhywfaint ers 2012-13. Wrth edrych

[3] Mae hyn hefyd yn un o’r dangosyddion cenedlaethol a osodwyd i asesu'r cynnydd yn erbyn nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

ar y canlyniadau hyn fesul grŵp oedran, does dim newid wedi bod dros y cyfnod yma yn y defnydd o'r Gymraeg i'r rheini dros 45 oed, felly mae'r cynnydd yn bennaf yn digwydd ymhlith y rheini sydd o dan 44 oed.

Yr weledigaeth yn *Cymraeg 2050* yw y bydd yr iaith yn cael ei defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd erbyn 2050, ac ymhlith y rheini nad ydynt yn ei siarad y bydd yna ewyllys da tuag ati ac ymdeimlad o berchnogaeth ohoni. I fonitro hyn, cafodd cwestiynau eu cynnwys yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017-18 ynghylch hyder siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'u Cymraeg, ac ynghylch agweddau pobl at yr iaith. Cafodd y canlyniadau eu cyhoeddi mewn bwletin ystadegol ar wefan yr Arolwg Cenedlaethol.

O ran hyder, canfu'r arolwg fod:

- 68% o siaradwyr Cymraeg yn teimlo'n hyderus yn siarad Cymraeg
- 72% ohonynt eisiau ei siarad â siaradwyr eraill
- 36% yn pryderu y byddant yn cael eu barnu ar sail safon eu Cymraeg
- cydberthynas cryf rhwng pa mor rhugl yr oedd siaradwr a'i hyder wrth siarad Cymraeg.

Ac o ran agweddau, canfu'r arolwg fod:

- 86% o bobl yn teimlo bod y Gymraeg yn rhywbeth i ymfalchïo ynddi
- 67% yn credu bod angen i fwy o ymdrech gael ei gwneud i gefnogi'r iaith
- 62% o'r rhai nad oeddent yn gallu siarad Cymraeg yn dymuno gallu ei siarad
- 40% yn cytuno byddai'r iaith Gymraeg yn gryfach mewn 10 mlynedd.

Nid yw'n syndod mai'r rhai sy'n gallu siarad Cymraeg yn rhugl a'r rhai sy'n defnyddio'r iaith yn ddyddiol yw'r rhai mwyaf hyderus yn ei siarad, tra bod y rhai sy'n llai rhugl neu nad ydynt yn siarad Cymraeg mor aml yn fwy tebygol o fod â diffyg hyder ac yn ofni cael eu barnu wrth siarad. Serch hynny, mae'n galonogol bod 62% o'r bobl nad oeddent yn medru siarad Cymraeg yn dweud y byddent yn hoffi gallu ei siarad, a bod 85% o'r bobl oedd â pheth Cymraeg eisiau gallu ei siarad yn well.

Er mwyn parhau i fonitro defnydd o'r Gymraeg, byddwn yn archwilio dulliau o gasglu gwybodaeth drwy gynnal Arolygon Defnydd Iaith pellach.

**Y gweithle**


Wrth i ni fwrw ati i geisio cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ar draws pob sector, mae dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i arwain drwy esiampl drwy hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith ei gweithlu ei hun.

Yn ystod y cyfnod adrodd, gwelwyd gofynion Safonau'r Gymraeg yn gwreiddio yn Llywodraeth Cymru. Cynhaliwyd hyfforddiant a gweithdai amrywiol er mwyn datblygu capasiti staff rheng flaen i gynnig gwasanaeth o safon uchel i gwsmeriaid. Yn hyn o beth, gwelwyd ymdrech lwyddiannus wrth farchnata a hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg ar draws Llywodraeth Cymru, yn ogystal ag annog y cyhoedd a rhanddeiliaid i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â'r sefydliad.

Mae rhagor o wybodaeth am gydymffurfiaeth Llywodraeth Cymru â safonau'r Gymraeg, a lefelau sgiliau ieithyddol staff Llywodraeth Cymru, i'w gweld yn [Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2017 i 2018.]

Mae'r Arolwg Pobl, sef arolwg blynyddol staff Llywodraeth Cymru, yn gofyn i'r gweithwyr pa iaith maent yn ei defnyddio i wneud eu gwaith. Mae Siart 12 yn dangos sut mae hynny wedi newid dros y blynyddoedd diweddaraf.

**Siart 12: Canran gweithlu'r llywodraeth sy'n defnyddio'r Gymraeg i wneud eu gwaith, yn ôl pa mor aml maent yn ei defnyddio (a)**




(a) Ni chafodd yr arolwg ei chynnal yn 2015, ac yn 2016 cafodd y categori 'Mwy o Saesneg na Chymraeg' ei rannu'n dri chategori pellach, sef 'mwy o Saesneg na Chymraeg' ond yn siarad Cymraeg bob dydd, yn wythnosol, neu'n llau aml nag wythnosol.

Mae'r siart yn dangos bod canran y staff sy'n siarad 'Cymraeg bob amser' neu fwy o Gymraeg na Saesneg wedi aros yn eithaf cyson ers 2013. Yn 2016 roedd 22% yn dweud eu bod yn defnyddio rhywfaint o Gymraeg yn eu gwaith ond mwy o Saesneg, ac erbyn 2017 roedd 25% yn dweud hyn. Cafodd yr atebion posibl eu newid rhywfaint yn 2016 i roi'r opsiwn o ddweud 'Mwy o Saesneg nag o Gymraeg' – ond yn defnyddio'r atebion posibl Cymraeg bob dydd / bob wythnos / llai aml nag yn wythnosol. Mae cyflwyno'r 3 is-opsiwn yma yn debygol o fod wedi newid sut mae pobl yn ateb y cwestiwn. Er hynny, ymddengys fod un o bob tri aelod o staff y Llywodraeth (33%) yn defnyddio rhywfaint o Gymraeg yn eu gwaith yn 2017 a 17% yn ei defnyddio o leiaf bob dydd.

### Cymraeg Gwaith

Mae gwaith allweddol i'w wneud i ehangu cyfleoedd hyfforddi Cymraeg yn y gweithle, ac er mwyn i'r Gymraeg ffynnu ar draws pob sector mae angen sicrhau hyfforddiant a chefnogaeth i ddysgwyr yn y gweithle. Un datblygiad hynod bwysig yn hyn o beth oedd blwyddyn weithredol gyntaf y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ym mlwyddyn academaidd 2016-17. Yn ystod y cyfnod hwn, lluniwyd y cwricwlwm cenedlaethol pwrpasol cyntaf erioed ar gyfer y maes, a datblygwyd safle rhyngweithiol sy'n gweithredu fel pwynt cyswllt canolog i ddysgwyr.

Fel y nodwyd eisoes, ym mis Ebrill 2017 sefydlwyd rhaglen Cymraeg Gwaith gan y Ganolfan gyda'r nod o ddatblygu gallu cwmnïau a sefydliadau i ddarparu gwasanaethau Cymraeg drwy gynnig hyfforddiant a chefnogaeth i gyflogwyr. Mae ystod eang o hyfforddiant ar gael drwy'r rhaglen, gan amrywio o hyfforddiant ar-lein i gyrsiau preswyl a chyrsiau dwys. O ganlyniad mae dros 3,000 o weithwyr o'r sector cyhoeddus a phreifat wedi elwa ar Cymraeg Gwaith yn ystod 2017-18.

**Y Gymraeg a byd busnes**

Blaenoriaeth arall o safbwynt y gweithle yw annog busnesau a sefydliadau'r trydydd sector i groesawu dwyieithrwydd, ac at y diben hwn sefydlwyd rhwydwaith newydd *Cymraeg Byd Busnes* ym mis Awst 2017.

Mae'r rhwydwaith yn cyflogi 10 swyddog ac un rheolwr ledled Cymru i ddarparu gwasanaeth i fusnesau ac elusennau i gynnwys eu defnydd o'r Gymraeg. Maent yn canolbwyntio ar ymyraethau penodol i gynyddu presenoldeb y Gymraeg yn y dirwedd ieithyddol, cynorthwyo busnesau i adnabod sgiliau Cymraeg yn y gweithle a recriwtio a marchnata'n ddwyieithog. Mae fframwaith mesur effaith yn cael ei ddatblygu i fesur deilliannau ieithyddol y gwaith. Dyma ddechrau ar ddatblygu a chyflwyno fframwaith cymorth cenedlaethol fel rhan o raglen newydd i hybu'r Gymraeg a hwyluso dwyieithrwydd yn y gweithle.

Wrth i ni fynd ati, yn unol â'r strategaeth, i gynyddu'r pwyslais ar ymwybyddiaeth iaith a chynllunio'r gweithlu, cychwynnodd gwaith cynllunio ar raglen Deall Dwyieithrwydd. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys ymchwil cychwynnol ar ddefnydd llywodraeth leol o hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith, yn ogystal â chynnwys a deilliannau dysgu deunyddiau cwrs. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn ystod 2018-19 gyda'r nod yn y pen draw o lunio polisi manwl mewn perthynas â'r maes hollbwysig hwn.

**Gwasanaethau Cymraeg**

O wella sefyllfa'r Gymraeg yn y gweithle, bydd hynny hefyd yn hwyluso ein hymdrechion i ddarparu rhagor o wasanaethau, a'r rheini'n wasanaethau gwell, drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn hynny o beth, mae'r strategaeth yn gosod trywydd er mwyn cynyddu nifer ac ansawdd y gwasanaethau a gynigir i siaradwyr Cymraeg drwy adolygu Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, gyda'r nod o sicrhau trefniadau effeithiol ar gyfer hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Wrth ddechrau gweithredu ar hyn, ym mis Ebrill 2017 cyhoeddwyd canlyniadau rhaglen ymgysylltu gyda chyrff sy'n dod o dan Safonau'r Gymraeg yng nghyfnod Chwefror-Mawrth 2017.

Yn ystod y cyfnod rhwng Awst a Hydref 2017 ymgynghorwyd ar Bapur Gwyn *Taro'r cydbwysedd iawn: cynigion ar gyfer Bil y Gymraeg,* gydag adroddiad a dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2018. Roedd y papur Gwyn yn dadlau bod pwyslais polisi wedi symud yn rhy bell i gyfeiriad rheoleiddio ar draul y gwaith i gynyddu defnydd o'r Gymraeg.

Er mwyn cynyddu nifer y gweithleoedd sy'n cynnig cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, gwnaethom barhau i lunio Rheoliadau Safonau'r Gymraeg o fewn cwmpas

y ddeddfwriaeth. Cafodd Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018 eu cymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mawrth 2018, ac mae'r Comisiynydd bellach wedi dyroddi hysbysiadau cydymffurfio i'r cyrff sector iechyd sy'n cael eu henwi yn y Rheoliadau hynny. O gymeradwyo'r Rheoliadau hyn, roedd tua 120 o gyrff yn dod o dan safonau'r Gymraeg erbyn diwedd Mawrth 2018.

O aros ym maes iechyd, penderfynwyd ei bod yn amserol comisiynu gwerthusiad o'r fframwaith strategol olynol *Mwy na geiriau . . . . Fframwaith Strategol Olynol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol 2016–2019*, er mwyn asesu'r cynnydd yn ei erbyn. Aethpwyd allan i dendr i gynnal y gwerthusiad yn ddiweddarach yn 2018.

O ran profiad siaradwyr Cymraeg o wasanaethau iechyd, yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017-18 gofynnwyd cyfres o gwestiynau am ddefnydd pobl o'r Gymraeg wrth ddefnyddio gwasanaethau iechyd. Dywedodd 15% o'r bobl a gafodd apwyntiad ysbyty neu feddyg teulu eu bod wedi cael eu holi am eu dewis iaith. Cafodd bwletin ystadegol ei gyhoeddi ar ganlyniadau'r cwestiynau.

Mae gwaith ymchwil i dechnegau newid ymddygiad er mwyn cyflwyno gwasanaethau yn well wedi bod yn sbardun i brosiect ymchwil peilot sydd wedi'i gychwyn trwy Grant *Cymraeg 2050*. Mae'r prosiect hwn yn arbrofi ag 'addewidion' ieithyddol er mwyn newid arferion wrth ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefydliad, ac os bydd yn llwyddiant y gobaith yw ehangu'r prosiect i sefydliadau pellach.

## Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg

Ein nod yw sefydlu arferion cadarnhaol o ran defnydd iaith, ynghyd â chyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i ddefnyddio Cymraeg yn gymdeithasol.

Er mwyn meithrin cysylltiadau cryfach rhwng ysgolion, sefydliadau ieuenctid a grwpiau cymunedol, ein nod yw rhoi fframwaith ystyrlon ar waith sy'n annog arferion iaith cadarnhaol ymhlith plant a phobl ifanc. Yn ystod y flwyddyn, bu'r Urdd a'r Mentrau Iaith yn gweithio'n agos i fapio'r ddarpariaeth yn sirol o ran cyfleoedd cymdeithasol i blant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg. Bydd y cynlluniau a ddatblygir o ganlyniad i'r gwaith o gymorth i annog cysylltiadau cryfach rhwng y prif ddarparwyr yn sirol, gyda'r nod o sicrhau bod y ddarpariaeth gymunedol yn atgyfnerthu'r gwaith a wneir mewn ysgolion, a bod amrywiaeth eang o gyfleoedd ar gael i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol ymhob ardal.

## Y Siarter Iaith

Parhawyd â'r gwaith o adeiladu ar y Siarter Iaith mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn genedlaethol. Gyda chefnogaeth y pedwar consortia addysg rhanbarthol, ar ddiwedd Mawrth 2018 roedd dros 250 o ysgolion yn gweithredu'r rhaglen er mwyn annog arferion cadarnhaol a defnydd anffurfiol o'r Gymraeg, ac mae'r ffigur wedi parhau i gynyddu ers hynny. Parhawyd hefyd i roi cefnogaeth i dros 25 o ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg i ddatblygu cynlluniau er mwyn annog arferion iaith cadarnhaol ymhlith disgyblion.

**Grantiau**

Sefydlwyd Rhaglen Hybu yn ystod y flwyddyn dan sylw, a oedd yn cynnwys sefydlu Bwrdd Cynllunio, a gyfansoddwyd o randdeiliaid allanol, i lywio'r gwaith. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys sefydlu a dyrannu Grant Cymraeg 2050 a oedd yn canolbwyntio ar dechnoleg a phrosiectau cymunedol arloesol i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.

Wrth ariannu sefydliadau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg, mae angen sicrhau bod y cyfleoedd ariannu yn gydnaws â'r strategaeth yn ogystal ag anghenion lleol. Dyrannwyd grantiau gwerth £4.2m i gefnogi sefydliadau i gynnal gweithgareddau sy'n hybu a hwyluso defnydd y Gymraeg. 2017-18 oedd yr ail flwyddyn mewn cylch o dair blynedd, gyda'r partneriaid craidd canlynol yn derbyn grantiau drwy'r cynllun hwn:

- Clwb Ffermwyr Ifanc Cymru
- Cymdeithas Eisteddfodau Cymru
- Eisteddfod Genedlaethol Cymru
- Merched y Wawr
- Mentrau Iaith Cymru
- Y Mentrau Iaith
- Yr Urdd
- Y Papurau Bro

Cynhaliwyd dau gyfarfod o'r Grŵp Hyrwyddo, sy'n cynnwys partneriaid a ariennir gennym drwy'r cynllun grant hybu a hyrwyddo, yn ogystal â phartneriaid allweddol eraill. Ymysg yr uchafbwyntiau oedd cyflwyniad gan Gomisiynydd y Gymraeg ar y Safonau Hybu, gweithdai ar *Cymraeg 2050* a *Rhaglen Waith 2017-21*, Adolygiad S4C a Gŵyl Wahanol yr Eisteddfod Genedlaethol.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu cyllid i'r Papurau Bro, sydd â dosbarthiad misol eang a llu o wirfoddolwyr yn cynorthwyo gyda'r gwaith o'u cynnal. Mae'r Papurau Bro yn adnodd cymunedol pwysig, ac yn ystod y cyfnod adrodd cynhaliwyd cyfarfod cenedlaethol o'r Papurau Bro er mwyn rhannu arferion da.

Bu Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio'n agos gyda Mentrau Iaith Cymru i ddatblygu'r ddogfen *Mentro Mwy,* sy'n canolbwyntio ar faterion megis:

- codi ansawdd a llywodraethiant y Mentrau Iaith
- cydweithio'n well â datblygiadau ar lefel genedlaethol
- arloesedd, brandio, marchnata a chyrraedd cynulleidfaoedd newydd.

O safbwynt yr Eisteddfod Genedlaethol, sy'n derbyn nawdd gan Lywodraeth Cymru, mynychodd 147,498 yr Eisteddfod Genedlaethol yn Sir Fôn, lle torrwyd pob record gan Maes B gyda bron i 13,000 o fynychwyr. Gwelwyd 90,000 yn mynychu Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Daeth dros 38,000 drwy'r gatiau yn Tafwyl 2017, a llwyddodd y Mentrau Iaith at ei gilydd i gynnal dros 150 o wyliau a gigs.

Mae ein cynlluniau cyllido hefyd yn cefnogi teuluoedd i annog eu plant i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol. Ariannwyd cyfleoedd i deuluoedd defnyddio'r Gymraeg mewn digwyddiadau ar draws Cymru, gan gynnwys gweithgareddau a chlybiau

wythnosol i blant a'u teuluoedd, gŵyliau yn ystod yr haf ac amrywiaeth o weithgareddau poblogaidd eraill.

Cynhaliwyd dau gyfarfod gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg er mwyn dechrau cynllunio meysydd gwaith ar gyfer prif-ffrydio'r Gymraeg. Canlyniad hyn yw cryfhau'r cysylltiadau â sefydliadau'r trydydd sector er mwyn cynyddu eu gallu i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg, yn ogystal â denu a chadw gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg.

Dechreuodd gwaith hefyd ar ddatblygu rhaglen genedlaethol i gefnogi siaradwyr Cymraeg newydd mewn partneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a phartneriaid yn y gymuned. Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wedi peilota cynllun *Siarad*, sy'n seiliedig ar raglen *Voluntariat per la Llengua* yng Nghatalwnia. Mae'r cynllun yn paru dysgwyr â siaradwyr mwy profiadol sy'n rhannu diddordebau er mwyn rhoi cyfle i ddysgwyr ddefnyddio eu Cymraeg mewn cyd-destun anffurfiol. Roedd disgwyl i'r parau dreulio o leiaf 10 awr gyda'i gilydd yn defnyddio'r Gymraeg.

## THEMA 3: Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

Nod y camau o dan Thema 3 y strategaeth yw cefnogi ein hymdrechion i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg. Mae a wnelo â chreu amodau addas ac amgylchedd lle gall y Gymraeg a'i siaradwyr ffynnu.

Er bod yna dargedau ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr a nifer defnyddwyr y Gymraeg, ni chaiff y naill na'r llall eu cyflawni heb seilwaith addas**.**

### Cymuned a'r economi

Er mwyn cefnogi seilwaith economaidd-gymdeithasol cymunedau Cymraeg, ym mis Hydref 2017 cyhoeddwyd fersiwn ddiwygiedig *Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg.* Mae'r cyngor diwygiedig yn rhoi arweiniad i'r Awdurdodau Cynllunio Lleol hynny sydd wrthi'n paratoi neu'n adolygu eu Cynlluniau Datblygu Lleol.

Mabwysiadodd 22 o 25 o'r Awdurdodau Cynllunio Lleol Gynllun Datblygu Lleol, gydag amrywiaeth ynddynt o ran y sylw a roddwyd i'r Gymraeg. Dylai Deddf Cynllunio 2015 a'r TAN 20 diwygiedig sicrhau y bydd mwy o ystyriaeth a chysondeb rhwng Awdurdodau Cynllunio wrth i Gynlluniau Datblygu Lleol gael eu hadolygu dros y blynyddoedd nesaf. Parhaodd gwaith o baratoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) drwy'r flwyddyn.

O safbwynt datblygu economaidd, un o amcanion Llywodraeth Cymru yw datblygu pwyslais rhanbarthol newydd i helpu pob rhan o Gymru i ffynnu, a chefnogi pob ardal i ddatblygu ei hunaniaeth nodweddiadol ei hun. I'r perwyl hwnnw, penodwyd Prif Swyddogion Rhanbarthol ym mhob un o'r tri rhanbarth (gogledd Cymru, de-ddwyrain Cymru, a chanolbarth a de-orllewin Cymru) i dywys y gwaith yn ei flaen. Ers eu penodi, mae'r Prif Swyddogion Rhanbarthol wedi bod mewn trafodaethau gyda rhanddeiliaid allweddol yn eu rhanbarthau, ac yn bwydo'n ôl i Lywodraeth Cymru. Byddant yn gweithio i ddatblygu Cynlluniau Busnes Rhanbarthol a fydd yn adnabod cyfleoedd, heriau a blaenoriaethau rhanbarthol, yn ogystal â'r ymatebion strategol iddynt. Mae'r gwaith wedi cychwyn i ddatblygu Arfor mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol Ceredigion, Gwynedd, Sir Gaerfyrddin ac Ynys Môn. Nod Arfor yw hyrwyddo twf busnesau a chryfhau seilwaith gymunedol rhag heriau allanol gyda ffocws benodol ar hyrwyddo'r Gymraeg.

Mae ein cymunedau yn wynebu heriau amrywiol, ac yng nghyd destun cymunedau Cymraeg mae sicrhau ffyniant yr iaith yn allweddol. Y gobaith wrth sefydlu Arfor yw bod cymorth ymarferol ar gael i gymunedau a busnesau arloesi er mwyn sicrhau eu cynaladwyedd hirdymor.

O safbwynt y diwydiant amaeth, yn sgil y bleidlais Brexit adnabuwyd pa mor hanfodol yw sicrhau bod y gefnogaeth i'r diwydiant amaeth, fel cyflogwr allweddol yng nghadarnleoedd y Gymraeg, yn parhau. Aethpwyd ati i gynnal trafodaethau ar draws y Llywodraeth ynghylch sut i liniaru yr effaith ar Gymru o ganlyniad i ymadawiad y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r effeithiau posibl ar y Gymraeg yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith hwn.

Gwnaed gwaith cychwynnol i edrych ar ffyrdd o reoli effaith datblygiadau mawr ar y Gymraeg, ac i greu fframwaith mewn partneriaeth gyda datblygwyr Wylfa Newydd. Yn dilyn trafodaethau cychwynnol gyda swyddogion yr Adran Gynllunio byddwn yn edrych ar ffyrdd o roi cefnogaeth ymarferol i Awdurdodau Cynllunio ynglŷn ag ystyriaethau y Gymraeg wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol.

Bu swyddogion hefyd yn cydweithio â’r Adran Gynllunio ar Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru a Chynlluniau Datblygu Lleol, ac i sicrhau bod dealltwriaeth dda o’r maes hwn yn y gwahanol feysydd polisi ar draws Llywodraeth Cymru.

Mae trafodaethau gyda thîm Busnes Cymru yn parhau er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chasglu am sgiliau iaith Gymraeg cleientiaid y gwasanaeth. Bydd hyn yn darparu gwaelodlin i asesu a yw siaradwyr Cymraeg yn defnyddio’r gwasanaethau ac a oes angen ymyrraeth bellach i hyrwyddo gwasanaethau a fyddai’n cefnogi siaradwyr Cymraeg i sefydlu busnesau newydd.

**Dydd Miwsig Cymru**

Parhaodd Dydd Miwsig Cymru, a oedd yn ei drydedd flwyddyn, i dyfu ac roedd yn gyfle i Lywodraeth Cymru weithio mewn partneriaeth â Dysgu Cymraeg, Prosiect Gorwelion y BBC, EE, Rhys Ifans, S4C, Radio Cymru, prosiect Forte ar gyfer artistiaid y dyfodol, y Mentrau Iaith a llawer mwy.

Daeth 4,330 i ddigwyddiadau i randdeiliaid ledled Cymru. Cymerodd 183 o fusnesau a 318 o ysgolion ran yn hyn hefyd. Roedd yr ymgyrch gyfan a oedd yn cynnwys cysylltiadau cyhoeddus, marchnata a chyfryngau cymdeithasol yn golygu bod dros 74 miliwn o bobl wedi’u cyrraedd drwy'r hashnodau #DyddMiwsigCymru a #WelshLanguagemusicDay (5m oedd y targed cychwynnol).

**Diwylliant a’r Cyfryngau**

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi sefydlu Grŵp Monitro'r Gymraeg i gynghori ar fentrau sy'n helpu gyda hyfforddiant a datblygiad proffesiynol ei staff. Mae’r Grŵp hefyd yn cynnig cyfarwyddyd ac arweiniad i sefydliadau sy'n derbyn cyllid refeniw, yn ogystal â'r holl sefydliadau sy'n derbyn cyllid prosiect, ar ofynion Safonau’r Gymraeg ac ar sut i adlewyrchu natur ddwyieithog Cymru.

Gwahoddir sefydliadau i nodi yn eu ceisiadau am gyllid Loteri sut y byddant yn adlewyrchu natur ddwyieithog y gymuned y maent yn gweithredu ynddi a'u cynulleidfaoedd targed, a ddefnyddir y data i:

- aesu'r effaith ar y Gymraeg ar gyfer pob grant a ddyfernir
- datblygu mentrau wedi'u targedu i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau a nodir neu feysydd a dangynrychiolir.

Rydym hefyd yn hyrwyddo'r Gymraeg ymhlith pobl ifanc yng Nghymru ac yn eu hannog i ddefnyddio'r iaith, a hynny drwy ein Rhaglen Dysgu Creadigol. Mae 475 o ysgolion yn cymryd rhan yn y rhaglen hon.

**Twristiaeth ac Ymwelwyr**

Aethom ati i ddatblygu'r cynnig Cymraeg fel rhan o ymgyrchoedd marchnata aml-sector yng Nghymru, naws am le, a phrofiad yr ymwelydd. Fe wnaethom hefyd fwrw ati i ddatblygu cynnwys Cymraeg i hyrwyddo Cymru ac yn defnyddio'r cynnwys hwnnw ar blatfformau amlieithog yn y dyfodol. Rydym yn parhau i ddatblygu brand newydd Cymru mewn ffyrdd a fydd yn cryfhau hunaniaeth a phresenoldeb y Gymraeg mewn ymgyrchoedd a deunyddiau yn ôl yr angen.

**Darlledu**

O ran darlledu a'r Gymraeg, gwnaethom barhau i bwysleisio pwysigrwydd darpariaeth Gymraeg S4C a Radio Cymru i Lywodraeth y DU ac Ofcom, yn ogystal â'r BBC. Croesawom y pwyslais yn adolygiad S4C, a gomisiynwyd gan Lywodraeth y DU, ar rôl bwysig S4C wrth gyflawni nod Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr. Byddwn yn parhau i weithio gydag S4C i gyflawni ein dyheadau ar gyfer yr iaith.

Fe wnaethom hefyd barhau i godi'n gyson gydag Ofcom yr angen i ystyried ffactorau ieithyddol pan fo trwyddedau radio yn cael eu dyfarnu neu eu hadolygu ar gyfer gorsafoedd yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys ein hymateb i'r ymgynghoriad ar adroddiad blynyddol Ofcom ar gyfer 2018-19. Ategir hyn drwy'r ffaith bod y cytundeb yn pennu y bydd nifer penodol o oriau'n cael eu darlledu yn Gymraeg ynghyd â datganiad am gynnwys ar y we yn Gymraeg, megis testun, ffrydiau a chlipiau fideo. Dylid gosod amrywiaeth ieithyddol, yn enwedig o ran y Gymraeg mewn gwasanaethau i Gymru, fel targed wrth ddyfarnu a rheoleiddio gwasanaethau i Gymru.

Er mwyn sicrhau dewis eang i fodloni'r galw gan wahanol gynulleidfaoedd, parhawyd i gefnogi'r diwydiant cyhoeddi, gan sicrhau bod dewis eang o gyhoeddiadau ar gael yn y Gymraeg ar wahanol fformatau. Yn hynny o beth, fe wnaeth cefnogaeth ariannol Llywodraeth Cymru drwy Gyngor Llyfrau Cymru sicrhau bod modd parhau i gefnogi cyhoeddwyr i gynhyrchu llyfrau a chylchgronau i oedolion a phlant. Bu'r Cyngor Llyfrau hefyd yn arwain ar gomisiynu a chynhyrchu cyfres Amdani (20 o lyfrau darllen hamdden ar gyfer dysgwyr) mewn cydweithrediad â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Ymhellach, comisiynwyd Dr. Siwan Rosser gan y Cyngor Llyfrau i gynnal arolwg o'r farchnad lyfrau plant ac oedolion ifanc, ac aethpwyd ati i ddechrau gweithredu ar argymhellion yr adroddiad. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ariannu Golwg360 drwy Gyngor Llyfrau Cymru, a bu cynnydd yn yr ymweliadau unigol o 9,868 i 14,741; ymweliadau tudalen o 131,689 i 144,575; dilynwyr Twitter o 11,095 i 12,133; a Facebook o 2,720 i 3,211.

**Cymru a'r byd ehangach**

Un o'n nodau yn *Cymraeg 2050* yw sicrhau bod y Gymraeg yn rhan ganolog o'n hymdrechion i greu pontydd rhwng Cymru a'r byd, a'i gwneud yn gyfrwng i groesawu a chymhathu pobl sy'n symud i Gymru.

Rydym yn arwain drwy esiampl wrth gysylltu â'r byd ehangach drwy sicrhau ein bod yn achub ar bob cyfle i blethu ein diwylliant unigryw i mewn i ddigwyddiadau cenedlaethol pwysig. Mae Adran Digwyddiadau Mawr Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos â Thîm Hybu swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, ac yn cyfeirio pob digwyddiad a gefnogir ganddi at y y tîm hwnnw. Pan fyddwn yn gweithredu dramor, rydym bob amser yn ceisio hyrwyddo'r Gymraeg fel un o asedau mwyaf gwerthfawr Cymru, ac yn gwneud yn siŵr bod Cymru yn cael ei hyrwyddo fel gwlad ddwyieithog.

Caiff yr holl ddigwyddiadau sy'n derbyn cefnogaeth grant gan yr Adran Digwyddiadau Mawr eu hannog i gyflwyno polisi iaith Gymraeg i geisio hyrwyddo'r Gymraeg a'i defnyddio'n effeithiol wrth lwyfannu a marchnata'r digwyddiad. Yn ystod y cyfnod dan sylw roedd y digwyddiadau a gefnogwyd yn amrywio o gêm derfynol Cynghrair y Pencampwyr yng Nghaerdydd, i Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen.

Er mwyn gwneud y Gymraeg yn fwy gweladwy i bobl sy'n symud i fyw yng Nghymru, lansiwyd Pecyn *Croeso i Gymru*, sef *Croeso i'r Gymraeg* ar y cyd â Chyngor Ynys Môn. Dosbarthwyd y pecyn cychwynnol i amrywiol sefydliadau sy'n croesawu mewnfudwyr i'r ardal. Mae'r gwaith o dreialu'r ymyrraeth hon yn parhau. Bydd hefyd yn cael ei dreialu yn Sir Gâr maes o law.

Gall y Gymraeg hefyd fod yn offeryn pwerus i hyrwyddo integreiddio. Fel rhan o'i grant arloesi, ariannodd Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ddau brosiect yn ardaloedd Caerdydd a Chasnewydd i ddarparu sesiynau dysgu Cymraeg i ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Datblygwyd y prosiectau hyn gan ddarparwyr Cymraeg i Oedolion ar y cyd gyda partneriaid cymunedol.

Mae'r Llywodraeth yn rhoi grant blynyddol o £90,000 i Ysgol Gymraeg Llundain, sy'n hyrwyddo'r Gymraeg yn Llundain ac yn darparu addysg gynradd Gymraeg i blant, gyda nifer ohonynt yn dychwelyd, maes o law, i'r system addysg Gymraeg yng Nghymru.

Mae un prosiect arbennig ym Mhatagonia yn golygu bod athrawon yn cael eu secondio i gymunedau allweddol, athrawon cynhenid yn cael eu datblygu, cyrsiau wedi'u strwythuro yn cael eu sefydlu, a gweithgareddau cyfrwng Cymraeg yn cael eu hyrwyddo. Fe'i rheolir gan y Cyngor Prydeinig ar ran Llywodraeth Cymru mewn cydweithrediad â Chymdeithas Cymru-Ariannin, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, yr Urdd a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Bydd y Gymraeg hefyd yn rhan o'n gwaith wrth i ni fagu cysylltiadau newydd a cheisio sicrhau cysylltiadau rhyngwladol sydd eisoes yn bodoli wrth i ni baratoi ar gyfer gadael yr Undeb Ewropeaidd.

**Technoleg ddigidol**

Mae sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hintegreiddio i dechnolegau newydd yn allweddol wrth geisio gwireddu uchelgais Cymraeg 2050.

Mae technoleg ddigidol wedi gweddnewid y ffordd rydym yn byw ein bywydau, ac mae'n hollbwysig buddsoddi mewn datblygiadau technolegol er mwyn sicrhau bod modd defnyddio'r Gymraeg mewn cynifer o gyd-destunau â phosibl, drwy lais yn ogystal â bysellfwrdd.

Un o'n hamcanion yw buddsoddi mwy mewn arloesi ym maes technoleg iaith i hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Cychwynnwyd ar hyn gyda Grant Cymraeg 2050. Gwahoddwyd ceisiadau am grantiau o hyd at £20,000 yr un. Daeth 137 o geisiadau i law a dyfarnwyd cyfanswm o £425,000 i 26 o brosiectau, gyda sawl un o'r rhain yn ymwneud â thechnoleg.

Er mwyn cefnogi ein seilwaith technolegol archwiliwyd cyfleoedd i fuddsoddi, i gydweithredu ac i rannu adnoddau a thechnolegau. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau y bydd yn bosibl defnyddio'r Gymraeg ar ddyfeisiau electronig. Rhoddwyd grant i Uned Technolegau Iaith Prifysgol Bangor i ddatblygu *Macsen 2* (technoleg deallusrwydd artiffisial) ymhellach, a chynhaliwyd hefyd waith â Grŵp Technoleg Cymraeg y Gweinidog er mwyn creu cynllun gweithredu hirdymor i fynd i'r afael ag anghenion technoleg iaith y Gymraeg.

Wrth ystyried cefnogaeth i ddatblygu adnoddau digidol newydd dwyieithog, parhaodd Cangen Adnoddau'r Gymraeg mewn Addysg i adnabod yr angen am adnoddau ar gyfer dysgwyr 3-19 oed. Cynhaliwyd paneli adnabod anghenion gydag athrawon yn ystod haf 2017, ac ystyriwyd datblygu adnoddau digidol yn ogystal â phrint. Ers tymor y haf 2017 cyhoeddwyd dros 30 o adnoddau digidol.

Yn ogystal â chynnal sgyrsiau â sawl cwmni technoleg eleni, bu pwyslais ein gwaith ar ddatblygu seilwaith technoleg y Gymraeg. Maes o law, wrth roi ei Cynllun Gweithredu TG newydd ar waith (cyhoeddwyd y ddogfen derfynol ym mis Hydref 2018 – bydd rhagor o fanylion yn yr Adroddiad Blynyddol nesaf), ein bwriad yw y bydd yn bosibl i sefydliadau o bob math defnyddio'r cydrannau a grëir er mwyn cynnig cefnogaeth i siaradwyr Cymraeg.

Rhoddwyd grant i Lyfrgell Genedlaethol Cymru ar gyfer prosiect o'r enw Wicilechyd, sydd wedi cynyddu'r nifer o erthyglau Cymraeg am iechyd. O ganlyniad crëwyd 4,699 o erthyglau Cymraeg newydd ar Wicipedia.

**Seilwaith ieithyddol**

Mae gwaith ar dechnoleg a'r Gymraeg yn eistedd ochr yn ochr ac yn ategu ein hymdrechion i ddatblygu seilwaith ieithyddol y Gymraeg. Yn ystod y flwyddyn adrodd, dechreuwyd ar y gwaith o asesu gwahanol elfennau'r seilwaith hwnnw, sy'n cynnwys gwaith geiriadura, terminoleg, corpws a'r proffesiwn cyfieithu, er mwyn gweld beth sydd eisoes yn bodoli a'r hyn sydd ei angen er mwyn symud y maes yn ei flaen yn y dyfodol. Mae'n amlwg bod llawer o waith eisoes wedi ei wneud dros y blynyddoedd dan law Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Chomisiynydd y Gymraeg, er mwyn

gwella'r profiad i'r defnyddiwr a gwella'r ffordd y caiff seilwaith ieithyddol y Gymraeg ei chydlynu. Nod y Llywodraeth yn hyn o beth fydd adeiladu ar y gwaith hwnnw.

Dros y cyfnod nesaf, byddwn yn datblygu'r polisi ymhellach, ochr yn ochr â'r gweithredu ar gyfer technoleg a'r Gymraeg, gyda'r nod o arloesi a chydlynu'r seilwaith ieithyddol yng Nghymru yn well, a sicrhau bod y maes yn symud yn ei flaen mewn modd strategol er budd siaradwyr Cymraeg ym mhobman ac o bob gallu.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid grant i brosiect Geiriadur Prifysgol Cymru, sy'n cyfrannu at nifer o'r camau a nodir yn strategaeth *Cymraeg 2050*, gan gynnwys creu amodau ffafriol i'r iaith, technoleg ddigidol a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.. Mae'r cyllid hwn hefyd yn cydnabod pwysigrwydd y Geiriadur fel conglfaen ieithyddol i'r Gymraeg.

O dan grant Cymraeg 2050, darparwyd cyllid i brosiect Geiriadur Prifysgol Cymru i ddatblygu cynllun GPC+, sef cynllun sy'n caniatáu i aelodau'r cyhoedd drawsgrifio slipiau'r Geiriadur (mae gan y Geiriadur tua 2.5 miliwn o slipiau papur a baratowyd o 1921 ymlaen, casgliad sy'n dal i dyfu. Serch hynny, mae llai nag 20% o'r slipiau hyn yn ymddangos yn y Geiriadur fel dyfyniadau).

Er mwyn cefnogi cyfieithwyr a chyfieithwyr ar y pryd i fodloni'r galw cynyddol am eu gwasanaethau, parhaodd Llywodraeth Cymru i gefnogi Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru. Dyma'r corff sy'n cynnal, yn sicrhau ac yn hyrwyddo safonau cyfieithu proffesiynol, gan wella, cynyddu a datblygu sgiliau a gwybodaeth cyfieithwyr. Roedd y nod o sicrhau bod y systemau diweddaraf o safbwynt cyfieithu peiriant ar gael i'r sector, a hynny er mwyn gwella cywirdeb, cyflymder a chysondeb cyfieithu, yn cydblethu â'n gwaith ym maes seilwaith technolegol (cyfieithu â chymorth cyfrifiaduron, technoleg deallusrwydd artiffisial ac ati). Yn hynny o beth, mae'r gwaith a ddechreuwyd gyda rhanddeiliaid i greu cynllun gweithredu hirdymor i fynd i'r afael ag anghenion technoleg iaith y Gymraeg yn ategu'r gwaith ym maes cyfieithu**.**

**Gwerthuso ac ymchwil**

Ym mis Mehefin 2017 cyhoeddwyd *Trosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd*, astudiaeth ymchwil a gomisiynwyd gan Wasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru i archwilio patrymau trosglwyddo a defnyddio'r Gymraeg ymhlith teuluoedd â phlant rhwng 0 a 4 oed. Cydweithiodd Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi gydag awduron yr adroddiad, Prifysgol Caerdydd, i gynnal sesiwn drafod ar ganfyddiadau'r gwaith yn Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn 2017.

Yn ystod y cyfnod yn arwain at gyhoeddi *Cymraeg 2050*, cydweithiodd y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi gyda swyddogion polisi i ddatblygu'r sail tystiolaeth a'r cyd-destun ymchwil ar gyfer y strategaeth. Hefyd, yn ystod y flwyddyn cwblhawyd gwaith ymchwil i gefnogi addysgu'r Gymraeg yng nghyd-destun datblygu'r cwricwlwm a threfniadau asesu yng Nghymru. Cyhoeddwyd *Trosolwg o ymagweddau at gaffael ail iaith ac arferion addysgol* ym mis Chwefror 2018. Yn yr un cyfnod parhaodd y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi i gydweithio gyda swyddogion ymchwil ar draws meysydd polisi i brif ffrydio'r Gymraeg mewn ymchwil gymdeithasol.

Wedi cyhoeddi’r strategaeth, cychwynnwyd y broses o archwilio’r ffyrdd o ychwanegu at ein dealltwriaeth o brofiadau ieithyddol siaradwyr yn ystod eu hoes, gan ganolbwyntio ar addysg. Cytunwyd ar brosiect ymchwil yn edrych ar ddilyniant astudio Cymraeg fel iaith gyntaf mewn ysgolion, i’w ymgymryd fel prosiect ymchwil ym Mhrifysgol Caerdydd yn 2018/19.